Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl:	Technegydd Iechyd yr Amgylchedd Graddedig
Lleoliad:	Gweithio Ystwyth
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol
Rhif y Swydd:	Amherthnasol
Cyflog:	Gradd 7 (Penodol i Bwynt Graddfa 26 £34,834 y flwyddyn)
Oriau:	37 awr yr wythnos
Contract:	Cyfnod Penodol 12 Mis yn Dechrau Hydref 2024 (union ddyddiad i'w gytuno)

Crynodeb o'r Swydd

Rydym yn chwilio am berson graddedig brwdfrydig, hunan-gymhellol i weithio fel Technegydd Iechyd yr Amgylchedd Graddedig gyda'r bwriad o symud ymlaen i fod yn Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd cymwysedig sydd wedi'i gofrestru â CIEH.

Wedi cwblhau gradd mewn gwaith Iechyd yr Amgylchedd mewn cylchdro ar draws gwahanol dimau Iechyd yr Amgylchedd, ymdrin â phob agwedd ar waith Iechyd yr Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys diogelwch bwyd; iechyd a diogelwch; rheoli clefydau trosglwyddadwy; iechyd cyhoeddus domestig; rheoli llygredd; tai sector preifat a thrwyddedu; i ennill yr ehangder profiad angenrheidiol, cwblhau Portffolio Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd CIEH a Thrafodaeth Broffesiynol wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor.

Gan weithio dan oruchwyliaeth gweithwyr proffesiynol cymwys ym maes Iechyd yr Amgylchedd byddwch yn datblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i'ch galluogi i symud ymlaen tuag at reoli eich llwyth achosion eich hun, tra'n dilyn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pellach, i ennill cymhwyster a statws proffesiynol llawn.

Mae'r swydd hefyd ar gael fel cyfle secondiad i gyflogeion presennol CBSBG. Dylai ymgeiswyr ofyn am gymeradwyaeth i gael eu rhyddhau o'u swydd bresennol gan eu Rheolwr Llinell cyn gwneud cais am y cyfle secondiad hwn.

Hysbyseb Lawn

Rydym yn chwilio am berson graddedig brwdfrydig, hunan-gymhellol i weithio fel Technegydd Iechyd yr Amgylchedd Graddedig gyda'r bwriad o symud ymlaen i fod yn Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd cymwysedig sydd wedi'i gofrestru â CIEH.

Ystyrir ceisiadau gan Fyfyrwyr sydd wedi cwblhau BSc neu MSc mewn Iechyd yr Amgylchedd. Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sydd i fod i gwblhau eu cymhwyster academaidd proffesiynol eleni.

Y rôl sydd ar gael yw 37 awr yr wythnos am 12 mis ac mae'n cynnwys gwyliau blynyddol deniadol a phecyn gweithio hyblyg. Telir ffioedd cofrestru CIEH am gyflwyno Portffolio Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd CIEH a Thrafodaeth Broffesiynol.

Gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gynnig amrywiaeth o weithgareddau hyfforddi sy'n addas i gyflawni'r holl Feysydd Ymyrraeth Portffolio i ennill statws Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd Cofrestredig.

Yn ystod eich amser gyda ni byddwch hefyd yn cael profiad yn y gweithle yn y meysydd canlynol:

- Cyfathrebu â chydweithwyr a chwsmeriaid ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Gweithio mewn tîm.
- Defnyddio TG mewn lleoliad gwaith gan gymhwyso pecynnau meddalwedd amrywiol.
- Ymchwilio ac adrodd ar wybodaeth benodol.
- Ysgrifennu Adroddiadau.
- Ennill gwybodaeth am ddeddfwriaeth briodol.
- Profiad gwaith mewn rôl briodol sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn frwdfrydig ac yn ymroddedig gydag agwedd ddeinamig at ei waith ac at ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, gan chwarae rhan bwysig o fewn Tîm Iechyd yr Amgylchedd blaengar.

Mae'r swydd yn cynnwys Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol Cymeradwy felly mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.

Os hoffech drafod y rôl yn fwy manwl yn anffurfiol, cysylltwch â **Lisa Griffin, Rheolwr Tîm** drwy ffonio **07974 002932**, neu drwy e-bost **lisa.griffin@blaenau-gwent.gov.uk**

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio mwy diogel, diogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Disgwyliwn i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Mae'r pecyn buddion yn cynnwys hawl gwyliau hael, cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad sy'n berthnasol i'r rôl a'r opsiwn i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gyflogwr Cyfle Cyfartal.

Rhestrir manylion a ffurflenni cais ar gyfer pob swydd wag ar wefan y Cyngor.

Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob rhan o'r gymuned yn gadarnhaol.

Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurfen Gais am Swydd yn Gymraeg

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

Dyddiad Cau: 10/10/2024, Hanner Nos

Dyddiad Cyfweld: I'w gadarnhau